

Lesley Griffiths AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a
Materion Gwledig
Llywodraeth Cymru

16 Hydref 2017

Annwyl Lesley,

Heb gyrraedd gwreiddyn y mater: uchelgais newydd ar gyfer polisiau coetiroedd

Diolch am eich ymateb i adroddiad y Pwyllgor. Yr wyf yn ddiolchgar am y ffordd y gwnaethoch gynnwys y Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn.

Er bod y Pwyllgor yn teimlo bod eich ymateb yn gadarnhaol ar y cyfan, cytunodd yr aelodau y dylwn ysgrifennu atoch i ofyn am ragor o wybodaeth am amryw o faterion a godwyd gennych yn eich ymateb.

Argymhelliad 1: Rhaid i Lywodraeth Cymru, fel mater o frys, adnewyddu ei strategaeth coetir gyda'r nod o gynyddu'r cyfraddau plannu yn sylweddol. Rhaid i'r strategaeth ddiwygiedig gynnwys targedau tymor hir ar gyfer gorchudd coetir a rhaid iddi gynnwys coedwigaeth fasnachol.
Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbynn mewn egwyddor

Mae'r Pwyllgor yn falch bod yr argymhelliad hwn wedi'i dderbyn mewn egwyddor ac y bydd adolygiad o'r strategaeth yn 2018. Fodd bynnag, un o'r negeseuon allweddol yn ein hadroddiad oedd y diffyg difrifol o ran creu coetiroedd newydd yng Nghymru. Mae'n annhebygol iawn y bydd Llywodraeth Cymru yn cyrraedd ei tharged o greu 100,000ha o goetiroedd newydd ar gyfer 2010-2030 heb newid sylfaenol mewn dull gweithredu.

Yn ystod y chwe mlynedd gyntaf y mae'r targed hwn yn gymwys (2010-16), creodd Cymru 3,500ha yn unig o goetir newydd. I gyrraedd eich targed o greu 100,000ha o goetiroedd newydd, bydd angen i Gymru greu 96,500ha yn ystod 14 mlynedd olaf y cynllun. Nid yw parhau yn yr un modd yn opsiwn.



Beth ydych chi'n bwriadu ei wneud yn wahanol i fynd i'r afael â'r diffyg plannu sylweddol yr ydych yn ei wynebu?

Argymhelliad 2: Rhaid i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â'r rhwystrau rhag cynyddu plannu, yn benodol trwy:

- Alinio'r prosesau rheoleiddio ac ariannu, a darparu arweiniad a chymorth ychwanegol i ymgeiswyr.
- Archwilio'r potensial i fabwysiadu rhagdybiaeth y caiff ceisiadau eu cymeradwyo mewn ardaloedd sydd wedi'u nodi ar y Map Cyfleoedd Coetir fel rhai sy'n addas iawn ar gyfer coetiroedd.
- Gwneud y Map Cyfleoedd Coetir yn haws ei ddefnyddio i ystod o wahanol grwpiau o ddefnyddwyr, a'i gysylltu â'r system cynllunio defnydd tir.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn mewn egwyddor

Yn eich ymateb, rydych yn dweud bod Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda Chyfoeth Naturiol Cymru i wella alinio prosesau rheoleiddio, yn arbennig, Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Coedwigaeth) (Cymru a Lloegr) 1999 (fel y'i diwygiwyd) â'r broses ymgeisio ar gyfer Creu Coetir Glastir, i hwyluso datblygu'r cynigion ar gyfer creu coetiroedd yn llwyddiannus. Rhowch fanylion unrhyw asesiad yr ydych wedi'i wneud o'r effaith y bydd y gwaith hwn yn ei gael ar wella cyfraddau plannu. A allech chi hefyd ddweud wrthym pryd y bydd y gwaith hwn, a'r gwaith o wella'r broses ymgeisio, yn cael ei gwblhau?

Dengys eich ymateb eich bod yn anelu at ddefnyddio'r Map Cyfleoedd Coetir i roi mwy o sicrwydd i ymgeiswyr ynghylch a yw cynnig yn debygol o gael ei gymeradwyo. A allech chi roi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor am y gwaith hwn, gan gynnwys pryd y bydd yn cael ei gwblhau, a manylion unrhyw asesiadau yr ydych wedi'u gwneud o'r effaith y bydd yn ei gael ar gynyddu cyfraddau plannu?

Argymhellodd y Pwyllgor y dylid rhagdybio y caiff ceisiadau eu cymeradwyo mewn ardaloedd sydd wedi'u nodi ar y Map fel rhai sy'n addas iawn ar gyfer coetiroedd. Rhowch fanylion i'r Pwyllgor am unrhyw asesiad yr ydych wedi'i wneud o'r manteision neu'r risgiau posibl sy'n deillio o'r dull hwn.

Argymhelliad 3: Rhaid i Lywodraeth Cymru nodi sut y bydd yn defnyddio coed a choetiroedd fel ateb sy'n seiliedig ar natur i ymdrin â llifogydd, a hwyluso ehangu'r Cod Carbon Coetiroedd.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn mewn egwyddor



Rhowch fanylion pellach am y camau yr ydych yn eu cymryd, neu'n bwriadu eu cymryd, i ehangu'r defnydd o'r Cod Carbon Coetiroedd a mynd i'r afael â rhwystrau rhag eu derbyn.

Yn eich ymateb, rydych yn dweud y byddwch yn ystyried a ddylai cofrestru gyda'r Cod fod yn ofyniad mewn rhai amgylchiadau. Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar am ddiweddariad ar eich barn ddiweddaraf ar y mater hwn.

Argymhelliad 4: Rhaid i Lywodraeth Cymru ymrwymo i sicrhau isafswm o 20% o orchudd canopi coed trefol, gan fynd i'r afael â hynny drwy Gynlluniau Llesiant Lleol a Datganiadau Ardal.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Gwrthod

Mae'r Pwyllgor yn siomedig bod yr argymhelliad hwn wedi'i wrthod. Ni fyddai gosod targed *cyffredinol* ar gyfer gorchudd canopi trefol yng Nghymru yn amharu ar wneud penderfyniadau lleol a byddai'n offeryn defnyddiol i ddatblygu gwaith yn y maes hwn. Byddai'r dull hwn yn cyd-fynd â'r dull a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru mewn llawer o feysydd polisi. Yn wir, rydych chi wedi cyflwyno targed cyffredinol ar gyfer creu coetiroedd yng Nghymru. Mewn ymateb i'r llythyr hwn, a allwch chi ystyried a fyddech yn fodlon cyflwyno targed cyffredinol o'r fath ar gyfer gorchudd canopi trefol?

Rydych yn mynd ymlaen i nodi eich bod o'r farn y dylai rhyw fath o ddangosydd cyflawni sy'n ymwneud â lleoliad penodol fod ar gael i'r rhai sy'n llunio Cynlluniau Llesiant Lleol. Rhowch amcangyfrif o pryd y bydd y gwaith hwn yn cael ei gwblhau ynghyd â rhagor o wybodaeth am sut y mae'r dangosydd yn cael ei ddatblygu.

Argymhelliad 5: Gall coetiroedd fod yn offeryn effeithiol ar gyfer adfywio ac ymgysylltu â chymunedau lleol. Rhaid i Lywodraeth Cymru harneisio hyn ac, fel man cychwyn, dylai:

- Cynyddu'r gefnogaeth i grwpiau coetir cymunedol.
- Asesu'r potensial i ddatblygu Cwmni Coedwig Genedlaethol i helpu i adfywio cymoedd y De.
- Sicrhau bod addysg coetir yn cael ei hymgorffori mewn polisiau addysg.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn mewn egwyddor

Mewn perthynas â chyllid ar gyfer grwpiau cymunedol, dywed eich ymateb y bydd y blaenoriaethau ar gyfer cyllido yn y dyfodol yn cyd-fynd yn agosach â blaenoriaethau'r Polisi Adnoddau Naturiol. A allwch chi ddarparu i'r Pwyllgor asesiad yr ydych wedi'i wneud o'r effaith y gallai hyn ei gael ar gefnogaeth i grwpiau coetiroedd cymunedol?



Rhowch y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y gwaith o ymchwilio i ddatblygiad Parc Tirlun y Cymoedd.

Argymhelliad 6: Rhaid i Lywodraeth Cymru ehangu mynediad i goetiroedd cyhoeddus a'i reoli'n well, yn enwedig ar gyfer grwpiau ymylol. Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru ystyried opsiynau i adennill costau oddi wrth grwpiau defnyddwyr sy'n ymgymryd â rhai gweithgareddau hamdden penodol yn y coetiroedd y mae'n eu rheoli.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn mewn egwyddor

Yn eich ymateb, rydych yn dweud fod gennych amheuan ynghylch codi tâl am weithgareddau hamdden oherwydd y rhwystr posibl, yn enwedig i grwpiau ymylol.

Roedd y Pwyllgor yn ofalus yn ei ddefnydd o iaith ac nid oedd yn argymhell codi tâl am eu defnyddio. Byddai adennill costau, efallai trwy drwyddedu, oddi wrth grwpiau defnyddwyr sy'n ymgymryd â gweithgareddau penodol mewn rhai ardaloedd, fel gweithgareddau swnllyd neu gyflym, yn lleihau'r defnydd anghyfreithlon o goetiroedd mewn mannau eraill. Rhowch unrhyw asesiad yr ydych wedi'i wneud o effaith bosibl yr ymagwedd hon i'r Pwyllgor, ynghyd â'r dystiolaeth sy'n cefnogi eich penderfyniad i beidio â mynd ar drywydd y cynnig hwn.

Argymhelliad 7: Dylai Llywodraeth Cymru egluro'i hamserlen ar gyfer dod â chynigion gerbron i ddiwygio mynediad.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn mewn egwyddor

Mae'r Pwyllgor yn derbyn efallai na all fod yn bosibl ar hyn o bryd i roi amserlen fanwl ar gyfer y camau nesaf, ond byddem yn croesawu arwydd gennych o'r cerrig milltir bras ar gyfer y gwaith hwn.

O ystyried bod yr Ymgynghoriad ar Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy wedi dod i ben ar 30 Medi, byddem yn ddiolchgar pe gallech roi'r wybodaeth ddiweddaraf ar lafar o ran manylion y camau nesaf yn ystod y ddadl ar adroddiad y Pwyllgor.

Argymhelliad 8: Rhaid i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â'r cyfyngiadau ar y sector coedwigaeth fasnachol, yn arbennig trwy:

- Hwyluso creu coetiroedd conwydd a gweithrediadau masnachol ar dir cyhoeddus a phreifat.
- Hyrwyddo i'r gymuned amaethyddol fanteision masnachol a manteision eraill plannu coed ar dir amaethyddol, a galluogi ffermwyr i wneud hyn drwy daliadau grant ychwanegol, syml a hyblyg.
- Darparu a hyrwyddo hyfforddiant mewn coedwigaeth, rheoli coetiroedd a



chynllunio coetiroedd.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

A allech chi roi manylion unrhyw asesiad yr ydych wedi'i wneud o effaith gwaith y Cynllun Cydweithio i Gynllunio Coedwigaeth?

Yn eich ymateb, rydych yn dweud bod "rhaid i ddiwydiannau coedwigaeth hefyd wneud mwy i gydweithio â thirfeddianwyr, Cyfoeth Naturiol Cymru a rheoleiddwyr i wneud y buddsoddiadau y mae eu diwydiant yn dibynnu arnynt. Mae maint y buddsoddiad sydd ei angen i ddiwallu anghenion y dyfodol yn sylweddol a bydd angen i sectorau preifat a chyhoeddus gydweithio er mwyn gwneud i hynny ddigwydd." A allwch chi roi manylion am unrhyw gamau yr ydych yn eu cymryd i hyrwyddo'r mater hwn?

A allwch chi roi manylion unrhyw waith penodol a wnaed gan Lywodraeth Cymru i hyrwyddo manteision masnachol a manteision eraill plannu coed ar dir amaethyddol i'r gymuned ffermio?

Roedd hyfforddi a hyrwyddo hyfforddiant yn fater allweddol i randdeiliaid a gyfrannodd at yr ymchwiliad. A ydych yn fodlon bod y camau a amlinellwyd gennych yn eich ymateb yn ddigonol i fynd i'r afael â'r pryderon hynny?

Argymhelliad 9: Dylai'r potensial ar gyfer twf yn y sector coedwigaeth fasnachol gael ei gefnogi gan Lywodraeth Cymru. Yn arbennig, dylai:

- Cytuno gyda'r sector coedwigaeth ar dargedau uchelgeisiol er mwyn i Gymru ddod yn gynyddol hunangynhaliol o ran cynhyrchu pren, ac yn llai dibynnol ar fewnforion.
- Dylai ystyried newid y rheoliadau adeiladu i hyrwyddo'r defnydd o bren ym maes adeiladu.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn mewn egwyddor

Dywed eich ymateb eich bod yn gweithio gyda'r diwydiant adeiladu i gynyddu'r defnydd o bren yn y maes adeiladu. Dywedwch fod "tystiolaeth gynnar" yn awgrymu bod newid arferion ac ymarfer ac arferion caffael yn cynnig mwy o gyfle i weld cynnydd, o'i gymharu â newid rheoliadau adeiladu neu ganllawiau cynllunio. Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech rannu'r dystiolaeth hon gyda ni.

A allech chi hefyd roi i'r Pwyllgor unrhyw asesiad yr ydych wedi'i wneud o effaith bosibl y dull gweithredu a ffefrir gennych a nodi'r camau y byddwch yn eu cymryd i annog y newidiadau mewn arferion ac ymarfer ac arferion caffael y cyfeiriwch atynt?



Argymhelliad 10: Dylai Llywodraeth Cymru ailgyflwyno Cynllun Rheoli Coetiroedd Glastir a sicrhau bod y plannu'n bodloni gofynion Cynllun Ansawdd Coetiroedd y DU.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn mewn egwyddor

A allech chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am eich cynnydd o ran ymchwilio i gyfleoedd i ail-flaenoriaethu adnoddau i ganiatáu ar gyfer agoriad cyfyngedig y Cynllun Rheoli Coetiroedd Glastir?

Argymhelliad 11: Rhaid i Lywodraeth Cymru weithio gyda rhanddeiliaid i sicrhau bod ei strategaeth o ran iechyd coed yn dangos y gwersi a ddysgwyd o'r achosion o Glefyd Coed Ynn a Chlefyd Llarwydd.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

A allwch chi roi amcangyfrif i'r Pwyllgor o pryd y bydd yr adolygiad o swyddogaethau ac aelodaeth y Grwp Llywio Iechyd Coed a Phlanhigion yn cael ei gwblhau? Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech roi gwybod i ni am ganlyniadau'r adolygiad hwnnw unwaith y bydd wedi'i gwblhau.

Argymhelliad 12: Rhaid i Lywodraeth Cymru wella'r ffordd y mae strategaeth Coetiroedd i Gymru yn cael ei rhoi ar waith trwy:

- Mynd i'r afael â'r rhwystrau rhag creu coetiroedd fel mater o frys.
- Adolygu'r strategaeth erbyn dechrau 2018, a nodi sut y bydd hi'n cefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, a'r Polisi ar Adnoddau Naturiol, ac yn cael ei chefnogi ganddyn nhw.
- Gwella tryloywder a grym y Panel Cyngori ar y Strategaeth Goetiroedd i yrru'r strategaeth ymlaen.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn mewn egwyddor

Nid yw eich ymateb yn mynd i'r afael â rhan olaf argymhelliad y Pwyllgor. O gofio bod eich ymateb yn nodi mai rôl y panel cyngori yw cefnogi datblygiad Gweinidogion Cymru o bolisi coedwigaeth, a oes gennych unrhyw gynlluniau i fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd gan rhanddeiliaid yn ystod yr ymchwiliad am ddiffyg tryloywder ac eglurder ynghylch rôl a gwaith y panel ?

Argymhelliad 13: Fel yr argymhellwyd yn adroddiad y Pwyllgor ar ddyfodol rheoli tir yng Nghymru, rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y drefn ariannu yn y dyfodol yn cael ei seilio ar ganlyniadau cynaliadwy. Gallai'r drefn hon gael ei chefnogi trwy ddulliau arloesol megis Taliadau am Wasanaethau Ecosystem a chronfeydd pensiwn yn buddsoddi mewn seilwaith gwyrdd.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn



Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech rannu adroddiad terfynol Rhaglen Monitro a Gwerthuso Glastir cyn gynted ag y bydd ar gael.

Mae'r Pwyllgor wedi gofyn i'r Pwyllgor Busnes drefnu dadl yn y Cyfarfod Llawn ar adroddiad y Pwyllgor ar 13 Rhagfyr. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r llythyr hwn erbyn 27 Tachwedd, fel y gall eich ymateb lywio'r ddadl yn y Cyfarfod Llawn.

Yn gywir



Mike Hedges AC

Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig



Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig sy'n dwyn y teitl '*Heb Gyrraedd Gwreiddyn y Mater: Uchelgais Newydd ar gyfer Polisiâu Coetiroedd*'.

Croesawaf adroddiad y Pwyllgor a'r cyfle i drafod a datblygu'r cynigion ar gyfer y trefniadau gweithio ar gyfer ymateb Llywodraeth Cymru iddo. Drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid, mae'r Pwyllgor wedi cynhyrchu adroddiad adeiladol ac mae llawer o argymhellion y Pwyllgor yn cyd-fynd â'n ffordd o feddwl.

Mae ystâd goetir Llywodraeth Cymru yn cyfrif am gyfran sylweddol o goetir yng Nghymru ac yn hynny o beth mae'n ased sylweddol i sicrhau ystod o fanteision i gymdeithas. Yn cynrychioli tua 7% o arwynebedd tir Cymru, mae'r ystâd goetir yn galluogi'r manteision niferus hyn i gael eu cyflawni. Mae'n offeryn ar gyfer cyflawni blaenoriaethau ein Polisi Adnoddau Naturiol, gan gynnwys profi ffyrdd newydd o reoli coetiroedd yng nghyd-destun bygythiadau i iechyd coed a newid yn yr hinsawdd.

Mae gwell dealltwriaeth yn datblygu o werth economaidd y manteision ehangach a ddaw yn sgil coed a choetiroedd (megis gwell ansawdd aer, eu cyfraniad tuag at iechyd a lles ac, ynghyd â mesurau eraill, eu rôl o ran helpu i leihau perygl llifogydd). Cynyddu i'r eithaf y pren a gynhyrchir, ochr yn ochr â chynnal adnodd coedwig ar gyfer yr amgylchedd ac er budd cymdeithasol, sydd wrth wraidd *Coetiroedd i Gymru*, strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer coetiroedd a choed yng Nghymru.

Mae'r ystâd goetir, felly, yn fodd i Lywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru ddangos sut y gall rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy sicrhau manteision ar gyfer y presennol ac, yn bwysicach, ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae'r ystâd goetir yn ased cymdeithasol pwysig hefyd ac yn cyfrannu at ymdeimlad o hunaniaeth ar lefel leol.

Wrth inni baratoi i adael yr Undeb Ewropeaidd, mae cyfleoedd i adeiladu ar enw da Cymru am nwyddau a gwasanaethau o ansawdd uchel, wedi'u hategu gan adnoddau naturiol gwydn ar draws marchnadoedd lleol a rhyngwladol. Hoffai Llywodraeth Cymru annog ffocws cryf ar wella prosesu a gwerth ychwanegol mewn cadwyni cyflenwi ar draws Cymru i gefnogi ein gallu cystadleuol. Mae gwytnwch ein hadnoddau naturiol a'r cyfleoedd a ddaw yn eu sgil wedi dod yn fwyfwy pwysig i Gymru wrth inni ddiffinio ein lle newydd yn y byd.

Rwyf wedi nodi fy ymateb i argymhellion unigol yr adroddiad isod.

Argymhelliad 1

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod:

Rhaid i Lywodraeth Cymru, fel mater o frys, adnewyddu ei strategaeth coetir gyda'r nod o gynyddu'r cyfraddau plannu yn sylweddol. Rhaid i'r strategaeth ddiwygiedig gynnwys targedau tymor hir ar gyfer gorchudd coetir a rhaid iddi gynnwys coedwigaeth fasnachol.

Ymateb:

Derbyn o ran Egwyddor

Cyhoeddwyd strategaeth 50 mlynedd Llywodraeth Cymru ar gyfer coetiroedd a choed, *Coetiroedd i Gymru*, yn 2001 ac fe'i diwygiwyd yn 2009. Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno ei bod yn bryd i'r strategaeth gael ei hadnewyddu i sicrhau ei bod yn cyd-fynd yn well â'r dulliau gweithredu newydd a roddwyd ar waith gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ar gyfer rheoli a defnyddio adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy gan gynnwys ei choedwigoedd, ei choetiroedd a'i choed, ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Mae'r strategaeth yn amlinellu gweledigaeth a chanlyniadau hirdymor y Llywodraeth ar gyfer coetiroedd a choed Cymru. Mae'r cynllun gweithredu 5-mlynedd (tan fis Mawrth 2020) sy'n cyd-fynd â'r strategaeth yn gosod targed i blannu 2,000 hectar o goed newydd y flwyddyn. Mae cynllun gweithredu wedi'i ddiweddarau eisoes wedi cael ei gyflwyno'r i'r Pwyllgor.

Bydd angen ymgynghoriad cyhoeddus llawn fel rhan o'r broses o adnewyddu'r strategaeth. Felly, bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu cynigion ar gyfer ymgynghori yn gynnar yn 2018 gan anelu at gwblhau'r strategaeth ddiwygiedig yn nes ymlaen yn y flwyddyn.

Mae cynyddu gorchudd coetir a datblygu sector coedwigaeth cystadleuol ac integredig yn ganlyniadau allweddol yn y strategaeth, a bydd y rheini'n parhau. Caiff y gwaith o'u cyflawni ei dywys gan y Polisi Adnoddau Naturiol a'i weithrediad ar sail ardal. Yn ogystal, mae Rhaglen Datgarboneiddio Llywodraeth Cymru a phennu'r cyllidebau carbon cyntaf o dan Ddeddf 2016 yn cynnig cyfle sylweddol i greu coetiroedd yn y dyfodol. Mae'r strategaeth bresennol eisoes yn gwneud darpariaeth ar gyfer y sector coedwigaeth a choetiroedd masnachol (Pennod 5), fodd bynnag, bydd hyn yn cael ei adolygu yn ystod y broses o adnewyddu'r strategaeth.

Goblygiadau Ariannol:

Ni fydd adnewyddu'r strategaeth ynddo'i hun yn arwain at gost ariannol. Wrth gwrs, efallai y bydd costau ychwanegol yn gysylltiedig ag unrhyw bolisiau diwygiedig - yn enwedig unrhyw rai sy'n ymwneud â chynyddu'n sylweddol y cyfraddau plannu - ac mae angen datblygu'r dystiolaeth er mwyn cefnogi opsiynau polisi yn y dyfodol. Nid yw goblygiadau ariannol y cynnig hwn yn

hysbys ar hyn o bryd a chânt eu hasesu pan fydd y cynigion ar gyfer adnewyddu'r strategaeth yn cael eu cynllunio.

Argymhelliad 2

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod:

Rhaid i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â'r rhwystrau rhag cynyddu plannu, yn benodol trwy:

- Alinio'r prosesau rheoleiddio ac ariannu, a darparu arweiniad a chymorth ychwanegol i ymgeiswyr.
- Archwilio'r potensial i fabwysiadu rhagdybiaeth y caiff ceisiadau eu cymeradwyo mewn ardaloedd sydd wedi'u nodi ar y Map Cyfleoedd Coetir fel rhai sy'n addas iawn ar gyfer coetiroedd.
- Gwneud y Map Cyfleoedd Coetir yn haws ei ddefnyddio i ystod o wahanol grwpiau o ddefnyddwyr, a'i gysylltu â'r system cynllunio defnydd tir

Ymateb:

Derbyn o ran Egwyddor

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i fynd i'r afael â'r rhwystrau i gynyddu plannu coetir yn unol â chyflawni'r canlyniadau allweddol a nodir yn ei strategaeth. Mae'r Llywodraeth yn gweithio'n agos gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i wella alinio prosesau rheoleiddio, yn arbennig, Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Coedwigaeth) (Cymru a Lloegr) 1999 (fel y'u diwygiwyd) â'r broses ymgeisio ar gyfer Creu Coetir Glastir i hwyluso datblygu'r cynigion ar gyfer creu coetiroedd yn llwyddiannus.

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a phartneriaid i wella'r broses ymgeisio. Byddwn yn ymchwilio i ffyrdd o ganiatáu cyfnodau ymgeisio hwy a rhoi rhybudd ymlaen llaw am gyfleoedd i Fynegi Diddordeb o dan Glastir neu unrhyw gynllun a fydd yn ei ddisodli yn y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i wella'n barhaus y Map Cyfleoedd Coetir. Ein nod fydd sicrhau bod mwy o wybodaeth ddefnyddiol yn cael ei darparu i ymgeiswyr er mwyn eu galluogi i fwrw ymlaen gyda mwy o sicrwydd ynghylch a yw cynnig yn debygol o gael ei gymeradwyo. Fodd bynnag, ni all y map ddisodli gwaith cynllunio manwl ar geisiadau unigol i sicrhau eu bod yn cyrraedd y safon ofynnol ar gyfer rheoli coetiroedd yn gynaliadwy, gan gynnwys gwerthusiad o'r rhywogaethau a'r cynefinoedd a all gael eu heffeithio, drwy gynllunio creu coetiroedd yn unol â hynny.

Wrth inni fwrw ymlaen â'r broses o adnabod cynefinoedd a rhywogaethau pwysig o dan adrannau 6 a 7 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod canllawiau ar y rhain yn gyson â rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, sy'n rhoi blaenoriaeth i sicrhau gwtynwch cynefinoedd ac ecosystemau yn y dyfodol, yn unol â'r egwyddorion

cynaliadwyedd a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Bydd datblygu Datganiadau Ardal a bwrw ymlaen â chyflwyno'r Polisi Adnoddau Naturiol yn lleol yn rhoi cyfle i ymgorffori'r Map Cyfleoedd Coetir mewn prosesau cyflawni a phenderfynu lleol a wneir gan dirfeddianwyr a rheoleiddwyr fel ei gilydd. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd datganiadau yn rhoi arwydd clir yn lleol ynghylch ble y dylai coetiroedd newydd gael eu creu.

Bydd cysylltiad cryf rhwng Datganiadau Ardal a chynllunio lleol ac, yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, rydym yn disgwyl i Fyrddau Gwasanaethau Lleol ystyried y cyfleoedd i greu coetiroedd newydd gan eu bod yn cyfrannu at y gwaith o ddatblygu cynllunio defnydd tir yn eu priod ardaloedd.

Goblygiadau Ariannol:

Er bod Llywodraeth Cymru yn berchen ar y Map Cyfleoedd Coetir, Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n ei letya ar y porth 'Lle'. Mae'r gost o gynnal y map yn cael ei chwmpasu gan y gyllideb adrannol. Efallai y bydd cyfle i ystyried trosglwyddo'r cyfrifoldeb am y map i Cyfoeth Naturiol Cymru a chysylltu hynny â chyflawni Datganiadau Ardal, gan sicrhau felly bod rheoli'r broses a'r dystiolaeth a'r wybodaeth i'w hategu yn cael eu cadw mewn un lle y gellir edrych i mewn iddo.

Ar hyn o bryd Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n talu costau cynnal asesiadau o effeithiau amgylcheddol ar gyfer coedwigaeth. Mae swyddogion wrthi'n cynnal adolygiad o ddeddfwriaeth asesu effeithiau amgylcheddol ac asesu effeithiau amgylcheddol strategol yng nghyd-destun gadael yr UE ac unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth y byddai angen eu hystyried yng ngoleuni anghenion polisi a gweinyddol ehangach ar gyfer y cyfundrefnau hyn yn eu cyfanrwydd.

Argymhelliad 3

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod:

Rhaid i Lywodraeth Cymru nodi sut y bydd yn defnyddio coed a choetiroedd fel ateb sy'n seiliedig ar natur i ymdrin â llifogydd, a hwyluso ehangu'r Cod Carbon Coetiroedd.

Ymateb:

Derbyn o ran Egwyddor

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod yr argymhelliad hwn yn cyd-fynd â'n dyheadau a'n polisiâu ar gyfer dull sy'n seiliedig ar ddalgylchoedd o reoli perygl llifogydd drwy ddulliau naturiol. Rydym wedi derbyn hyn mewn egwyddor gan fod y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yn cael ei diweddarau a byddwn yn ceisio sicrhau bod hyn

yn nodi swyddogaeth plannu coed a rheoli coetiroedd mewn dull sy'n seiliedig ar ddalgylchoedd.

Er y dylid ystyried rheoli perygl llifogydd drwy ddulliau naturiol wrth arfarnu cynllun llifogydd, efallai nad dyma'r ateb gorau bob tro neu efallai y bydd yn gweithio'n well ar y cyd â dulliau lliniaru eraill, megis adfer mawnogydd, creu pyllau neu sefydlu lleiniau clustogi glaswelltir. Anaml y byddai plannu coed yn cael ei ddefnyddio ar ei ben ei hun mewn ymyrraeth i atal llifogydd gan nad yw'n darparu'r sicrwydd sydd ei angen ar hydrolegwyr a pheirianwyr i sicrhau lleihad 'penodol' mewn risg. Er ein bod yn dal i ddysgu sut a lle mae defnyddio coed orau i reoli perygl llifogydd, rydym yn cytuno â chasgliadau'r adroddiad ynghylch plannu yn y dalgylchoedd uchaf sy'n debygol o ddod â budd o ran lleihau perygl llifogydd. Rydym am weld rheoli perygl llifogydd naturiol yn cael ei ystyried yn opsiwn ar gyfer lleihau perygl llifogydd ac, yn hyn o beth, mae dulliau naturiol o reoli llifogydd yn gymwys o dan y rhaglen rheoli perygl llifogydd a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Mae manteision o ran perygl llifogydd yn debygol o gael eu gweld drwy fentrau penodol nad ydynt yn ymwneud â pherygl llifogydd, megis plannu coedwigoedd.

Cyfundrefn wirfoddol yw'r Cod Carbon Coetiroedd ac mae'r nifer sy'n manteisio arno yn dibynnu yn y pen draw ar benderfyniadau gan ddatblygwyr prosiectau i'w defnyddio. Un o ofynion allweddol cymryd rhan yn y cod yw bod yn rhaid i'r cynlluniau plannu coed sy'n cofrestru gydag ef fod yn wirfoddol yn hytrach na rhywbeth y mae'n ofynnol i'r tirlfeddiannwr ei wneud. Mae hyn oherwydd yr egwyddor o 'ychwaneged', ac mae'n rhaid i dalu am wasanaethau ecosystem fod yn allweddol wrth benderfynu a yw'r prosiect yn mynd yn ei flaen. Os oes gofyniad cyfreithiol i ailstocio coed (megis amodau ailstocio mewn trwydded cwympo coed amodol), ni fyddai'r prawf yn cael ei fodloni oherwydd ni fyddai plannu yn yr amgylchiadau hyn yn darparu unrhyw ychwaneged neu fantais ychwanegol, gan na fyddai coetir newydd yn cael ei greu.

Er ein bod yn cynnal yr egwyddor wirfoddol hon, mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'n llawn y Cod Carbon Coetiroedd a bydd yn gweithio i ehangu ei ddefnydd a mynd i'r afael â'r rhwystrau i fanteisio ar y Cod. Os bydd ymgeiswyr yn gwneud cais am grant ar gyfer plannu coetiroedd newydd, byddwn yn ystyried a ddylem ei wneud yn ofyniad bod yn rhaid iddynt gofrestru gyda'r Cod. Ar hyn o bryd, mae'n ofynnol cofrestru â'r Cod, sef y cam cyntaf i gynhyrchu a gwerthu credydau carbon, ar gyfer yr opsiwn 'Coetir Brodorol - Carbon' yn unig o fewn cynllun Creu Coetir Glastir. Gan fod yr holl weithgaredd creu coetiroedd yn y pen draw yn arwain at ddal a storio carbon, gall fod yn briodol ymestyn y ddarpariaeth hon i'r holl weithgaredd plannu coetir yn Glastir ac unrhyw gynllun newydd yn y dyfodol. Mae cofrestru â'r Cod yn gofyn am ymdrech ychwanegol gan y tirlfeddiannwr ac, ar gyfer ardaloedd bach iawn o goetir, gall hyn fod yn anghymesur, felly byddwn yn ystyried a ellir sefydlu cynllun cofrestru grŵp fel rhan o unrhyw broses ymgeisio newydd ar gyfer cynllun creu coetir.

Goblygiadau Ariannol:

Nid yw'r rhain yn hysbys ar hyn o bryd.

Argymhelliad 4

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod:

Rhaid i Lywodraeth Cymru ymrwymo i sicrhau isafswm o 20% o orchudd canopi coed trefol, gan fynd i'r afael â hynny drwy Gynlluniau Llesiant Lleol a Datganiadau Ardal

Ymateb:

Gwrthod

Mae targed unigol yn annhebygol o fod o gymorth wrth ddatblygu ein polisïau neu gyrraedd y nodau y mae'r Pwyllgor yn awyddus i'w cyflawni. Mae pob ardal drefol yng Nghymru yn wahanol. Y gorchudd canopi ar gyfer Cymru, fesul ardal awdurdod lleol, ar gyfartalog yw 16.3%, gyda'r gorchudd uchaf yn Nhorfaen (23.2%) a'r gorchudd isaf yn Sir Ddinbych (11.7%). Y broses o lunio Cynlluniau Llesiant Lleol a Datganiadau Ardal, sy'n cynnwys Byrddau Gwasanaethau Lleol wrth wneud penderfyniadau, yw'r mecanwaith a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd Cymru ar gyfer cyrraedd targedau i fodloni anghenion a blaenoriaethau lleol. Byddai gosod targed ychwanegol, fel yr argymhellwyd gan y pwyllgor, yn rhagfarnu'r broses gwneud penderfyniadau lleol a ragwelir gan y ddeddfwriaeth hon.

Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai rhyw fath o ddangosydd cyflawni sy'n ymwneud â lleoliad penodol fod ar gael i'r rhai sy'n llunio Cynlluniau Llesiant Lleol. Yn unol â hynny, rydym yn cefnogi gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru i fesur gorchudd canopi a byddwn yn ymchwilio i ffyrdd o fonitro newidiadau mewn gorchudd canopi o'r llinell sylfaen a sefydlwyd yn yr adroddiad gorchudd canopi, '*Gorchudd Coed yn Nhrefi a Dinasoedd Cymru*'.

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ac Awdurdodau Lleol i ehangu'r defnydd o'r offeryn iTree Eco ar gyfer monitro coed a choetiroedd trefol mewn trefi ac o'u hamgylch drwy '*Bwrw Ymlaen â Rheoli Coetiroedd Cymru yn Gynaliadwy*', lle mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar fesurau i wella diogelwch coed hynafol, coed treftadaeth a choed hynod. Rydym hefyd yn edrych ymlaen at gael cyngor gan Gomisiwn y Gyfraith ar y mater hwn.

Goblygiadau Ariannol:

Byddai ailadrodd yr adroddiad gorchudd canopi, sef '*Gorchudd Coed yn Nhrefi a Dinasoedd Cymru*' gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn costio oddeutu £30,000.

Ni fyddai unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol yn sgil gwrthod yr argymhelliad hwn.

Argymhelliad 5

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Y gall coetiroedd fod yn offeryn effeithiol ar gyfer adfywio ac ymgysylltu â chymunedau lleol. Rhaid i Lywodraeth Cymru harneisio hyn ac, fel man cychwyn, dylai:

- Cynyddu'r gefnogaeth i grwpiau coetir cymunedol.
- Asesu'r potensial i ddatblygu Cwmni Coedwig Genedlaethol i helpu i adfywio cymoedd y De.
- Sicrhau bod addysg coetir yn cael ei hymgorffori mewn polisïau addysg.

Ymateb:

Derbyn o ran Egwyddor

Darperir y cyllid presennol ar gyfer grwpiau cymunedol drwy'r grant craidd gan Lywodraeth Cymru. Yn dilyn proses ymgeisio agored a chystadleuol, dyfarnwyd cyllid o bron i £22 miliwn i 16 o sefydliadau (allan o 61 o ymgeiswyr) dros gyfnod o 2.5 mlynedd (1 Hydref 2015 - 31 Mawrth 2018). Mae gan nifer o'r sefydliadau llwyddiannus ddiddordeb mewn gweithgarwch sy'n gysylltiedig â choedwigaeth/coetir. Er enghraifft, llwyddodd Llais y Goedwig i sicrhau bron i £340,000 i ddarparu gwasanaeth mentora a chymorth i sefydlu grwpiau coetiroedd cymunedol ac er mwyn datblygu galluedd a meithrin gallu. Yn yr un modd, cafodd Coed Cymru gyllid o £449,000 dros yr un cyfnod i feithrin gallu, i gynorthwyo i gyflawni amrywiaeth o amcanion yn strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer coed a choetiroedd ac i gefnogi'r rôl bwysig y gall coetiroedd ei chwarae wrth weithredu cynlluniau rheoli adnoddau naturiol integredig.

Daw'r trefniant cyllido presennol i ben yn 2018 ac mae Llywodraeth Cymru yn ystyried y camau y dylai eu cymryd i ddarparu cyllid o'r fath yn y dyfodol. Ni all Llywodraeth Cymru ragfarnu penderfyniadau yn y dyfodol i gynnig arian grant i sefydliadau penodol. Bydd grantiau cyllid craidd yn cael eu hystyried ar gyfer sefydliadau sy'n rhannu nodau a blaenoriaethau tebyg i'n rhai ni, sy'n anelu at gyflawni'r un canlyniadau ac sydd â chynigion ar gyfer gwaith yn y meysydd blaenoriaeth. Byddwn yn gweithio gyda sefydliadau yn y trydydd sector ehangach craidd a chyfredol dros y misoedd nesaf i gydgyllunio'r cylch nesaf o gyllid craidd. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd y blaenoriaethau ar gyfer cyllido yn cyd-fynd yn agosach â blaenoriaethau'r Polisi Adnoddau Naturiol.

Mae potensial i ddatblygu mesurau i wella'r defnydd o goed, coetiroedd a choedwigoedd fel rhan o brosiectau adfywio'r Cymoedd. Mae ardal sylweddol o goedwig yng Nghymoedd y De eisoes yn eiddo cyhoeddus ac yn cael ei rheoli gan Cyfoeth Naturiol Cymru gyda ffocws cryf ar ddarparu ar gyfer cymunedau lleol. Mewn ardaloedd lle mae cymunedau wedi dweud eu bod am gymryd rhan yn uniongyrchol yn y gwaith o reoli coetiroedd, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi rhoi mesurau ar waith i ddarparu cyfleoedd i gymryd rhan, gan gynnwys y cynllun Mynediad. Mae'r coedwigoedd cyhoeddus hyn

hefyd yn cefnogi datblygiad economaidd lleol, drwy ddarparu cyflenwad dibynadwy o gynhyrchion coedwigoedd i felinau coed a gweithfeydd bio-ynni. Er mwyn sicrhau tegwch i bawb, cynigir y cynhyrchion hyn i'r farchnad mewn ffordd deg, agored a thryloyw ac mae'n rhaid i gyfleoedd eraill i ddefnyddio'r fforestydd gael eu cynnig mewn ffordd debyg.

Wrth i Cyfoeth Naturiol Cymru ddatblygu Datganiadau Ardal, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd yn ceisio cysoni ei phroses cynllunio adnoddau coedwigoedd gyda'r rhain. Dylai hyn alluogi cymunedau lleol i nodi cyfleoedd lle y gellir gwella datblygiad economaidd lleol a pharchu'r angen i fod yn deg, yn agored ac yn dryloyw ar yr un pryd.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ynghylch a oes angen cael gwared ar rwystrau deddfwriaethol a allai atal cymunedau rhag cael mwy o reolaeth dros eu coetiroedd lleol. Bydd yr ymgynghoriad *Bwrw Ymlaen â Rheoli Adnoddau Naturiol Cymru* yn parhau tan 30 Medi a byddwn yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad a'r angen am ddeddfwriaeth bellach yng ngoleuni'r rheini.

Creodd Llywodraeth Cymru y cynllun *Plant! Coeden ar Gyfer Pob Plentyn* yn 2008 ac mae hwn yn cael ei reoli gan Cyfoeth Naturiol Cymru a Coed Cadw (cangen Cymru o The Woodland Trust). Erbyn hyn mae safleoedd ledled Cymru wedi cael eu plannu gyda bron i 300,000 o goed llydanddail brodorol ar gyfer pob plentyn sydd wedi'i eni a'i fabwysiadu yng Nghymru.

Ar 20 Gorffennaf, cyhoeddodd y Tasglu Gweinidogol ar gyfer y Cymoedd ei gynllun, *Ein Cymoedd Ein Dyfodol*. Mae'r cynllun yn cynnwys ymrwymiad i ymchwilio i ddatblygu Parc Tirweddau'r Cymoedd. Bydd hyn yn helpu cymunedau i weithio gyda'r sector cyhoeddus i sicrhau'r buddiannau mwyaf posibl yn sgil adnoddau naturiol yr ardal. Gallai hyn gynnwys y gymuned yn datblygu coetir, datblygu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant drwy seilwaith gwyrdd a defnyddio pren lleol wrth adeiladu cartrefi'r unfed ganrif ar hugain.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod gwerth unigryw dysgu yn yr awyr agored a'r lluo o fanteision a ddaw yn ei sgil i blant, gan gynnwys cefnogi datblygu ffyrdd iach a gweithgar o fyw; datblygu sgiliau datrys problemau; a deall a pharchu natur a'r amgylchedd lle maent yn byw. Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol, drwy amrywiaeth o bynciau, eisoes yn rhoi cyfle i ddysgwyr gael gwybodaeth am y byd naturiol mewn gwahanol leoliadau awyr agored - megis drwy ddaearyddiaeth neu waith maes gwyddoniaeth neu ymweliadau â safleoedd hanesyddol neu grefyddol. Mae felly'n cydnabod gwerth datblygu sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth i blant drwy gymryd rhan mewn ystod o brofiadau gan gynnwys gweithgareddau yn yr amgylcheddau dysgu dan do ac awyr agored.

Goblygiadau Ariannol:

Ar hyn o bryd mae'r cyllid ar gyfer Llais y Goedwig yn £339,020 ac mae'n £449,000 ar gyfer Coed Cymru dros gyfnod o 2.5 mlynedd. Byddwn yn ymgysylltu â'r sefydliadau/grwpiau hynny sy'n rhan o'r cyd-gynhyrchu i lywio a

ffurfio unrhyw ffrydiau ariannu yn y dyfodol fel eu bod yn fwy gwybodus ac yn gallu gwneud cais am arian mewn unrhyw rowndiau cyllido yn y dyfodol.

Mae'r holl gostau eraill yn cael eu talu o gyllidebau rhaglenni.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn debygol o nodi y byddai mwy o waith gyda chymunedau yn golygu mwy o gost a mwy o adnoddau staff.

Argymhelliad 6

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod:

Rhaid i Lywodraeth Cymru ehangu mynediad i goetiroedd cyhoeddus a'i reoli'n well, yn enwedig ar gyfer grwpiau ymylol. Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru ystyried opsiynau i adennill costau oddi wrth grwpiau defnyddwyr sy'n ymgymryd â rhai gweithgareddau hamdden penodol yn y coetiroedd y mae'n eu rheoli.

Ymateb:

Derbyn o ran Egwyddor

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â byrdwn yr argymhelliad, fodd bynnag, mae ganddi amheuan ynghylch priodoldeb gweithredu trefniadau codi tâl penodol ar ei hystâd.

Cyfoeth Naturiol Cymru sydd â'r cyfrifoldeb gweithredol dros ystâd goetir Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y cyfrifoldeb pwysig dros gydbwysu'r blaenoriaethau ar gyfer darparu mynediad i wahanol grwpiau. Mae'r cyfrifoldebau hyn yn amodol ar bolisi strategol trosfwaol Gweinidogion Cymru ar ddefnyddio a hyrwyddo mynediad a hamdden awyr agored ledled Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu fframwaith symlach, llai beichus ar gyfer mynediad, sy'n hwyluso cysondeb o ran y cyfleoedd sydd ar gael ar gyfer cymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau ac yn cyfleu'n briodol i bawb â diddordeb beth yw eu cyfrifoldebau a'u dyletswyddau.

Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar gynigion sy'n ceisio cyflawni ymhellach ei hymrwymiad i reoli adnoddau naturiol Cymru yn fwy cynaliadwy er mwyn creu manteision economaidd, cymdeithasol a diwylliannol hirhoedlog, yn ogystal â manteision amgylcheddol, er mwyn sicrhau bod Cymru'n parhau i ffynnu. Mae'r rhain yn cynnwys cynigion i gynyddu'r cyfleoedd hamdden awyr agored ar gyfer ystod ehangach o weithgareddau ar dir mynediad a'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus yn agos at ble mae pobl yn byw. Un o'r nodau allweddol yw sicrhau bod pobl yn gallu cael mynediad i fannau gwyrdd a glas ar gyfer gweithgareddau hamdden cyfrifol waeth faint o fodd sydd ganddynt neu waeth beth yw eu galluoedd.

Mae coetiroedd yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr oherwydd eu manteision i iechyd a lles a'u manteision cymdeithasol ac economaidd mewn perthynas â hamdden awyr agored. Maent yn aml yn ganolfannau ar gyfer llwybrau cyd-ddefnyddio a gweithgarwch aml-ddefnyddiwr, sydd am ddim. Mae

Llywodraeth Cymru yn awyddus i weld hyn yn parhau ac yn ymestyn i ardaloedd eraill.

Mae gan Lywodraeth Cymru amheuan ynghylch codi tâl am weithgareddau hamdden oherwydd y rhwystr posibl, yn enwedig i grwpiau ymylol. Mae darparu amwynderau neu wasanaethau yn gwella mynediad ac yn cael eu gwerthfawrogi'n arbennig gan y rhai sy'n draddodiadol yn gwneud llai o ddefnydd o gefn gwlad ar gyfer hamdden, gan gynnwys y rhai sydd â phroblemau symudedd, pobl o gymunedau difreintiedig a theuluoedd gyda phlant ifanc.

Goblygiadau Ariannol:

Bydd y gofynion ariannol a chyfreithiol ar gyfer gwella, cynnal a hyrwyddo mynediad cyhoeddus i ystâd goetir Llywodraeth Cymru yn cael eu talu o gyllideb Cyfoeth Naturiol Cymru.

Argymhelliad 7

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Y dylai Llywodraeth Cymru egluro'i hamserlen ar gyfer dod â chynigion gerbron i ddiwygio mynediad

Ymateb:

Derbyn o ran Egwyddor

Mae ymgynghoriad presennol Llywodraeth Cymru, '*Bwrw Ymlaen â Rheoli Adnoddau Naturiol Cymru yn Gynaliadwy*', yn cynnwys cynigion i ddiweddarau'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer mynediad cyhoeddus i'r awyr agored. Bydd yr ymgynghoriad yn dod i ben ar 30 Medi. Bydd maint a natur yr ymatebion a ddaw i law yn pennu'r camau nesaf.

Goblygiadau Ariannol:

Dim goblygiadau ariannol uniongyrchol - telir costau gweinyddol ymgysylltu â rhanddeiliaid o gyllidebau rhaglenni.

Argymhelliad 8

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod:

Rhaid i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â'r cyfyngiadau ar y sector coedwigaeth fasnachol, yn arbennig trwy:

- Hwyluso creu coetiroedd conwydd a gweithrediadau masnachol ar dir cyhoeddus a phreifat.
- Hyrwyddo i'r gymuned amaethyddol fanteision masnachol a manteision eraill plannu coed ar dir amaethyddol, a galluogi ffermwyr i wneud hyn drwy daliadau grant ychwanegol, syml a hyblyg.
- Darparu a hyrwyddo hyfforddiant mewn coedwigaeth, rheoli coetiroedd a chynllunio coetiroedd.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr angen i alluogi mwy o goetiroedd i gael eu plannu mewn dull cynhyrchiol er mwyn galluogi Cymru i ddiwallu anghenion cenedlaethau'r dyfodol. Mae creu coetir ar raddfa fawr yn gofyn am gydweithio, cydweithredu a chynnwys ystod o bartïon â diddordeb ac er mwyn hwyluso hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Cynllun Plannu Coedwigoedd Cydweithredol o dan Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig (2014-2020).

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i chwarae ei rhan yn y broses o greu coetiroedd, gan weithio gyda diwydiannau coedwigaeth, ond, wrth dderbyn yr argymhelliad hwn, noda fod yn rhaid i ddiwydiannau coedwigaeth hefyd wneud mwy i gydweithio â thirfeddianwyr, Cyfoeth Naturiol Cymru a rheoleiddwyr i wneud y buddsoddiadau y mae eu diwydiant yn dibynnu arnynt. Mae maint y buddsoddiad sydd ei angen i ddiwallu anghenion y dyfodol yn sylweddol a bydd angen i sectorau preifat a chyhoeddus gydweithio er mwyn gwneud i hynny ddigwydd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gydweithio â'r gymuned amaethyddol a chyda Cyfoeth Naturiol Cymru i sicrhau bod ffermwyr yn ymwybodol o'r cyfleoedd a ddaw yn sgil creu a rheoli coetiroedd ar eu tir. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod gan ffermwyr ddewis o ran sut y maent yn rheoli eu tir ac i lawer, bydd yr amgylchiadau newydd a ddaw yn sgil gadael yr UE yn her sylweddol.

Gall y cyfle i ddefnyddio coetiroedd ar gyfer cysgod, cynhyrchu pren ac i wella eu fferm yn ogystal â chynhyrchu incwm yn y dyfodol fod yn sylweddol i rai ffermwyr sydd â'r sgiliau a'r awydd i fanteisio arno. Mae buddsoddi mewn coetir yn weithgaredd tymor hir iawn ac, oni bai bod gan y fferm eisoes ardaloedd sylweddol o goetir aeddfed, efallai na fydd yn cynhyrchu elw rheolaidd yn yr un ffordd ag y gall da byw.

Drwy'r Is-grŵp Defnydd Tir, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag ystod o randdeiliaid, gan gynnwys undebau ffermio, cyrff amgylcheddol a chynrychiolwyr coedwigaeth fasnachol. Mae'r Grŵp yn gweithio i sicrhau bod pob defnydd tir, gan gynnwys coedwigo ar raddfa fach a mawr, yn cael ei ystyried yn rhan o'r darlun ehangach o ddefnydd tir yn y dyfodol. Ystyrir anawsterau ymarferol pob agwedd ar arallgyfeirio i blannu coed, gan gynnwys gweithdrefnau caniatâd a hyfforddiant, a chesglir y problemau er mwyn gwella'r broses o weithredu'r cynllun yn y dyfodol.

Drwy '*Bwrw Ymlaen â Rheoli Adnoddau Naturiol Cymru yn Gynaliadwy*' rydym yn ymgynghori ar reoleiddio cwmpo coed er mwyn gwneud y system yn fwy hyblyg ar yr amod nad yw hyn yn arwain at ostyngiad net mewn ardaloedd coetir yng Nghymru yn y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu ac yn ariannu hyfforddiant mewn coedwigaeth, rheoli coetiroedd a chynllunio coetiroedd drwy Cyswllt Ffermio a Chymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig, sydd hefyd wedi darparu cymorth ar gyfer 'Focus on Forestry First'. Mae ystod eang o ddarparwyr addysg a hyfforddiant coedwigaeth yn gweithredu yng Nghymru, megis Cyfoeth Naturiol Cymru (drwy ei gynllun cenedlaethol 'Cyfle' sy'n darparu cymorth ac yn rheoli lleoliadau profiad gwaith, gwirfoddolwyr, lleoliadau i israddedigion a graddedigion a phrentisiaethau), LANTRA, sy'n darparu ystod o gyrsiau coedwigaeth ardystiedig a hefyd y rhai a ddarperir gan Brifysgol Glyndŵr Wrecsam a Phrifysgol Bangor, yn ogystal â chorff proffesiynol y diwydiant, Sefydliad y Coedwigwyr Siartredig.

Goblygiadau Ariannol:

Y gyllideb ar gyfer Cylch 1 y Cynllun Cynllunio Coedwigoedd Cydweithredol (Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig (2014-2020)) yw £180,000.

Bydd Rownd 2 yn cael ei chynnal yn Hydref 2017, ac mae'r gyllideb oddeutu £300,000. Nid oes ymrwymiad i barhau i ariannu'r Cynllun hwn ar ôl 2 gylch.

Mae'r cyfnod Datgan Diddordeb ar gyfer cylch cyllido presennol Creu Coetiroedd Glastir (Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig (2014-2020)) yn dod i ben ar 25 Awst gyda chyllideb o £1.7 miliwn.

Bydd cylch arall o Creu Coetiroedd Glastir yn cael ei gynnal rhwng 26 Chwefror a 6 Ebrill 2018 gyda chyllideb o £1.7 miliwn.

Mae parhad y gefnogaeth ar gyfer coetiroedd a choedwigaeth yn dibynnu ar benderfyniad ynghylch disodli dau Biler y Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC).

Argymhelliad 9

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Y dylai'r potensial ar gyfer twf yn y sector coedwigaeth fasnachol gael ei gefnogi gan Lywodraeth Cymru. Yn arbennig dylai:

- Cytuno gyda'r sector coedwigaeth ar dargedau uchelgeisiol er mwyn i Gymru ddod yn gynyddol hunangynhaliol o ran cynhyrchu pren, ac yn llai dibynnol ar fewnforion.
- Ystyried newid y rheoliadau adeiladu i hyrwyddo'r defnydd o bren ym maes adeiladu.

Ymateb:

Derbyn o ran Egwyddor

Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn gweithio gyda'r sector adeiladu i annog a chynyddu'r defnydd o bren yn y maes adeiladu. Nid yw'r uchelgais i fod yn hunangynhaliol yn hawdd ei chyrraedd nac yn arbennig o ddymunol am sawl rheswm. Yn gyntaf, mae Cymru yn cynhyrchu gormodedd o bren a chynhyrchion pren nad yw'n eu defnyddio'n ddomestig. Mae lleoliad coedwigoedd mewn perthynas â'r galw yng Nghymru yn golygu ei bod yn aml yn fwy synhwyrol ateb y galw yng Nghymru drwy ddefnyddio pren o Loegr ac i'r gwrthwyneb oherwydd y ffin hir ar y tir a lleoliad cyfleusterau prosesu ar hyd y ffin. Mae'n bwysicach canolbwyntio ar:

- Gadwyni cyflenwi lleol, lle y gellir optimeiddio cludo pren er mwyn lleihau costau ac allyriadau CO2.
- Defnyddio pren yn gyntaf, o ba le bynnag y daw, mewn tai a gwaith adeiladu arall i sefydlu cadwyni cyflenwi ac ysgogi'r farchnad ar gyfer deunyddiau cynaliadwy.
- Defnyddio coed yng nghyd-destun economi gylchol, lle rydym yn canolbwyntio ar ei adfer, ei aildefnyddio a'i ailgylchu pan fydd y cynnyrch defnydd cyntaf yn cael ei ddatgomiynu.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r diwydiant adeiladu i ganfod i ba raddau y gall rheoliadau adeiladu cyfredol neu ganllawiau cynllunio fod yn rhwystr i ddefnyddio mwy o bren. Mae tystiolaeth gynnar yn awgrymu bod newid arferion ac ymarfer yn y diwydiant adeiladu ac arferion caffael yn cynnig mwy o gyfle i weld cynnydd yn hyn o beth.

Bydd Rhaglen Tai Arloesol newydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod £20 miliwn ar gael dros 2017-18 a 2018-19. Mae'n rhan o'n targed i greu 20,000 o gartrefi fforddiadwy, ac mae wedi'i chynllunio i gyd-fynd â gofynion Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd cynlluniau sy'n defnyddio pren, yn enwedig pren o Gymru, yn cael eu croesawu. Er nad yw'r fenter hon wedi'i bwriadu i hybu unrhyw fath penodol o adeilad, mae'n gwbl bosibl y gallai dulliau 'anhraddodiadol' o gynllunio a darparu tai newydd gynnwys atebion sy'n gwneud mwy o ddefnydd o bren. Bydd cynlluniau sydd wedi cyflwyno cais am gymorth ariannol yn cael eu hasesu yn erbyn fframwaith manwl o feini prawf a luniwyd i gyflawni datblygiad a chartrefi sy'n parhau i fod yn addas at y diben drwy gydol eu hoes.

Goblygiadau Ariannol:

Dim goblygiadau ariannol uniongyrchol - telir costau rheoli cyfranogiad rhanddeiliaid o gyllidebau rhaglenni.

Argymhelliad 10

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Y dylai Llywodraeth Cymru ailgyflwyno Cynllun Rheoli Coetiroedd Glastir a sicrhau bod y plannu'n bodloni gofynion Cynllun Ansawdd Coetiroedd y DU

Ymateb: Derbyn o ran Egwyddor

Mae'r arian sydd ar gael ar gyfer Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig (2014-2020) wedi'i ymrwymo'n llawn ar hyn o bryd, gan gynnwys dyraniad ar gyfer y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Pren yn y dyfodol. Cefnogodd Llywodraeth Cymru waith rheoli coetiroedd o dan y Cynllun Datblygu Gwledig blaenorol drwy Gynllun Rheoli Coetiroedd Glastir ac roedd hyn yn cynnwys grantiau ailstocio er mwyn arallgyfeirio coetiroedd. Fodd bynnag, pan lanswyd y cynllun roedd y cymorth yn canolbwyntio ar adfer Planhigfeydd ar Safleoedd Coetir Hynafol, gan droi coetiroedd a oedd heb eu rheoli yn goetiroedd a reolir yn weithredol ac annog newid o glirio coed i systemau coedamaeth bach eu heffaith.

Parodd yr achosion o *Phytophthora ramorum* (*P ramorum*) i gynllun Rheoli Coetiroedd Glastir flaenoriaethu opsiynau ailstocio i leihau'r risg o newid defnydd tir, lle roedd Hysbysiad Iechyd Planhigion Statudol wedi'i gyhoeddi, ac i helpu rheolwyr coetiroedd i liniaru'r risg y bydd eu coed llarwydd yn cael eu heintio a'r risg y bydd y clefyd yn lledaenu ymhellach. Roedd hyn yn golygu bod y rhan fwyaf o gyllideb Cynllun Rheoli Coetiroedd Glastir wedi cael ei gwario ar ailstocio. O dan y Rhaglen Datblygu Gwledig hon, o ystyried y pwysau ar adnoddau ariannol ac mewn cytundeb â'r diwydiant, rhoddwyd blaenoriaeth i fynd i'r afael â *P ramorum* a chreu coetiroedd newydd. Fodd bynnag, bydd Llywodraeth Cymru yn ymchwilio i gyfleoedd i ail-flaenoriaethu adnoddau i ganiatáu ar gyfer agor Cynllun Rheoli Coetiroedd Glastir i ryw raddau.

Mae Safon Coedwigaeth y DU (UKFS) yn nodi'r hyn sy'n ofynnol er mwyn i goetiroedd gael eu rheoli'n gynaliadwy. Fodd bynnag nid yw, ynddo'i hun, yn darparu dull i berchennog neu reolwr coetir ddangos i'w cwsmeriaid eu bod yn cydymffurfio â'r safon. Er mwyn llenwi'r bwlch hwn, mae Safon Sicrwydd Coetir y DU (UKWAS) yn darparu "safon cydymffurfio", sy'n amlinellu set o ofynion ac yn datgan pa dystiolaeth ymarferol o weithgareddau ac arferion rheoli sydd eu hangen er mwyn gallu archwilio cydymffurfiaeth yn annibynnol ac i gyrrff dyfarnu megis y Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd neu'r Rhaglen Cymeradwyo Ardystio Coedwigoedd ddyfarnu tystysgrifau.

Er bod cydymffurfio ag UKWAS yn ddymunol ac yn cael ei annog, gall cael ardystiad y Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd neu'r Rhaglen Cymeradwyo Ardystio Coedwigoedd ar gyfer pren neu gynhyrchion coedwigaeth eraill fel cig carw, helpu'r perchennog i gael mynediad i'r farchnad, gall ddarparu prisiau uwch ar gyfer pren a werthir ac mae'n dystiolaeth o gynaliadwyedd mewn marchnadoedd biomas. Fodd bynnag, cynllun ardystio trydydd parti yw UKWAS ac mae cost i'r perchennog coetir yn gysylltiedig â chymryd rhan ynddo. Mewn coetiroedd sy'n llai na 10 hectar, sy'n cyfrif am tua thraean o goetir yng Nghymru, yn aml nid yw'n gost-effeithiol o ran yr elw i'r perchennog yn sgil mwy o fynediad i'r farchnad neu brisiau uwch.

Mae gwneud cydymffurfio ag UKWAS yn un o amodau Cynllun Rheoli Coetiroedd Glastir neu gynlluniau plannu yn debygol o danseilio nifer y

perchnogion coetiroedd llai sy'n manteisio arno. Mae'r UKFS, y mae cynllun ardystio UKWAS yn seiliedig arno, yn darparu safon er mwyn cadarnhau cynlluniau plannu a rheoli coetiroedd yn ei herbyn. Ein nod yw sicrhau bod perchnogion coetiroedd sy'n paratoi cynllun rheoli coedwigoedd i ddangos cydymffurfiaeth ag UKFS yn gallu defnyddio'r cynllun fel rhan o'r gofynion y byddant yn eu hwynebu os byddant yn dewis cymryd rhan yn UKWAS o'u gwirfodd er mwyn cael ardystiad trydydd parti.

Mae'r Is-grŵp Defnydd Tir yn gweithio i sicrhau bod pob defnydd tir, gan gynnwys rheoli coetiroedd presennol, adfer Planhigfeydd ar Safleoedd Coetir Hynafol, dileu rhywogaethau anfrodorol goresgynnol ac allgau stoc (os yw'n briodol), yn cael eu hystyried, ynghyd â'r holl ddefnydd tir arall.

Goblygiadau Ariannol:

Mae cronfeydd Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Cynllun Datblygu Gwledig (2014-2020) wedi eu hymrwymo'n llwyr hyd ddiwedd y Rhaglen yn 2023. Gellir ond rhyddhau cronfeydd ar gael ailgyflwyno Cynllun Rheoli drwy eu tynnu'n ôl o rannau eraill o'r Rhaglen. Mae £4 miliwn arall wedi'i neilltuo ar hyn o bryd ar gyfer cylchoedd y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Pren yn y dyfodol.

Nid yw Cynllun Rheoli Coetiroedd Glastir wedi agor o dan y Rhaglen hyd yma yn rhannol oherwydd bod y diwydiant wedi cytuno gyda Llywodraeth Cymru ar drefn blaenoriaeth sydd wedi canolbwyntio ar greu ac adfer coetiroedd. Mae hefyd yn cynrychioli'r gwerth lleiaf am arian oherwydd bod y derbyniadau o werthu pren wedi cynyddu 20% oherwydd newidiadau mewn cyfraddau cyfnewid ers refferendwm yr UE. Mae hyn yn cynrychioli arian annisgwyl yr amcangyfrifir ei fod yn £100 miliwn dros gyfnod y Rhaglen.

Mae swyddogion yn ystyried yr achos dros ailgyflwyno Cynllun Rheoli Coetiroedd Glastir yng ngoleuni gadael yr UE.

Argymhelliad 11

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod:

Rhaid i Lywodraeth Cymru weithio gyda rhanddeiliaid i sicrhau bod ei strategaeth o ran iechyd coed yn dangos y gwersi a ddysgwyd o'r achosion o Glefyd Coed Ynn a Chlefyd Llarwydd.

Ymateb: Derbyn

Mae Grŵp Llywio Iechyd Coed a Phlanhigion Cymru (sy'n cynnwys ystod o gynrychiolwyr rhanddeiliaid) yn cwrdd yn rheolaidd i adolygu diweddariadau mewn perthynas â strategaethau iechyd coed ar gyfer Cymru. Mae Timau Ymateb Gweithredol ar gyfer *P ramorum* a *Chalara* yn cwrdd i adolygu'r wybodaeth ddiweddaraf am yr achosion o'r haint *P ramorum* a *Chalara* ac maent yn bwydo'r wybodaeth hon yn ôl i'r Grŵp Llywio.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu adolygu swyddogaethau'r Grŵp Llywio Iechyd Coed a Phlanhigion a'i aelodaeth er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas at y diben wrth inni wynebu mwy o her yn sgil clefydau coed. Bydd y broses o adnewyddu'r strategaeth *Coetiroedd i Gymru* hefyd yn ystyried ein hymateb i achosion o glefydau yng ngoleuni'r dystiolaeth wyddonol ac effaith barhaus newid yn yr hinsawdd a'r penderfyniad i adael i'r UE.

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried a oes angen newidiadau i ddeddfwriaeth mewn ymateb i fygythiadau yn sgil clefydau sy'n datblygu a gweithio'n agos gyda DEFRA a Llywodraeth yr Alban i gyfuno ein hymdrechion i frwydro yn erbyn clefydau.

Goblygiadau Ariannol:

Bydd y goblygiadau ariannol llawn yn cael eu hasesu fel rhan o'r adolygiad.

Argymhelliad 12

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod:

Rhaid i Lywodraeth Cymru wella'r ffordd y mae strategaeth Coetiroedd i Gymru yn cael ei rhoi ar waith trwy:

- Mynd i'r afael â'r rhwystrau rhag creu coetiroedd fel mater o frys.
- Adolygu'r strategaeth erbyn dechrau 2018, a nodi sut y bydd hi'n cefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, a'r Polisi ar Adnoddau Naturiol, ac yn cael ei chefnogi ganddyn nhw.
- Gwella tryloywder a grym y Panel Cyngori ar y Strategaeth Goetiroedd i yrru'r strategaeth ymlaen.

Ymateb:

Derbyn o ran Egwyddor

Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn, o ran egwyddor, yr argymhelliad (Argymhelliad 1) i adolygu rhwystrau i greu coetiroedd. Bydd y strategaeth yn cael ei hadnewyddu yn unol â'r Polisi Adnoddau Naturiol, gyda Strategaethau Datgarboneiddio sy'n dod i'r amlwg a chyda datblygiad Datganiadau Ardal gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Fodd bynnag, mae'r amserlen ar gyfer cyhoeddi'r strategaethau hyn, ynghyd â'r angen am ymgynghoriad cyhoeddus ar strategaeth ddiwygiedig yn debygol o olygu y bydd y gwaith hwn yn parhau ymhell i 2018. Byddwn yn cyflwyno cynigion ymgynghori ar ddechrau 2018 gyda'r nod o gwblhau'r strategaeth ddiwygiedig yn ddiweddarach y flwyddyn honno.

Mae gan y Panel Cyngori ar y Strategaeth Goetiroedd set bwysig o swyddogaethau ar ran Gweinidogion Cymru. Yn ogystal â gweithredu fel panel cyngori i gefnogi datblygiad Gweinidogion Cymru o bolisi coedwigaeth, mae hefyd yn cefnogi Gweinidogion Cymru i ymdrin â phenderfynu ar

apeliadau mewn perthynas â thrwyddedau torri coed o dan y ddeddfwriaeth goedwigaeth.

Goblygiadau Ariannol:

Bydd angen amser ac adnoddau i gwblhau'r adolygiad o'r strategaeth ac nid yw manylion y rhain yn hysbys eto. Bydd y goblygiadau ariannol yn cael eu hasesu fel rhan o'r adolygiad.

Argymhelliad 13

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod:

Fel yr argymhellwyd yn adroddiad y Pwyllgor ar ddyfodol rheoli tir yng Nghymru, rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y drefn ariannu yn y dyfodol yn cael ei seilio ar ganlyniadau cynaliadwy. Gallai'r drefn hon gael ei chefnogi trwy ddulliau arloesol megis Taliadau am Wasanaethau Ecosystem a chronfeydd pensiwn yn buddsoddi mewn seilwaith gwyrdd,

Ymateb:

Derbyn

Fel y nodwyd uchod, mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod gan fecanweithiau megis taliadau am wasanaethau ecosystem ran i'w chwarae mewn modelau cyllido yn y dyfodol. Mae gan y Cod Carbon Coetiroedd (Argymhelliad 3) rôl allweddol fel patrwm sy'n paratoui'r ffordd ar gyfer y math hwn o fecanwaith. Mae hefyd yn ein helpu i nodi rhwystrau posibl, megis pris isel carbon yn y farchnad a'r angen i ddod o hyd i ffyrdd o'u goresgyn.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i sicrhau bod rheoli a phlannu coetiroedd yn cael ei integreiddio ym mhob defnydd tir arall er mwyn cyrraedd nodau amgylcheddol, economaidd a llesiant.

Bydd yr adroddiad terfynol gan Raglen Monitro a Gwerthuso Glastir yn cael ei ddefnyddio i benderfynu pa fesurau defnydd tir sydd wedi bod fwyaf llwyddiannus. Bydd y dystiolaeth hon yn cael ei defnyddio i helpu i lywio'r gwaith o gynllunio dulliau cymorth wrth symud ymlaen.

Goblygiadau Ariannol:

Nid yw'r rhain yn hysbys ar hyn o bryd.

Lesley Griffiths, AC

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig